Live Fear Free Helpline
Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
0808 80 10 800
MAE PLANT YN BWYSIG
CHILDREN MATTER
Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

## Briff Cymorth i Ferched Cymru: Mis Mawrth 2020

# Ymateb i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod Pandemig COVID 19

**Rhagarweiniad**

Yng ngoleuni'r sefyllfa bresennol a datblygol gyda COVID 19, mae gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn gweithredu i barhau i ddarparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau i'r rheini sydd ei angen yng Nghymru ynghyd â chefnogi goroeswyr a staff o fewn eu gwasanaethau.

Dengys tystiolaeth gynnar o Tsieina, yn ogystal â'r hyn a ddysgir gan bandemigau byd-eang eraill, gynnydd posibl mewn VAWDASV.[1] Gall ynysu a chadw pellter cymdeithasol gynyddu dulliau o reoli drwy orfodaeth, cynyddu achosion o drais corfforol a rhywiol, cynyddu cam-drin economaidd ynghyd â chyfyngu ar y cyfleoedd sydd gan oroeswyr i weithredu. Mae ynysu a chadw pellter cymdeithasol hefyd yn cael effaith ar y rheini sydd eisoes wedi profi camdriniaeth, gan sbarduno ôl-fflachiadau a chynyddu gorbryder. Daw hyn ar adeg pan fo gwasanaethau arbenigol hefyd o dan bwysau sylweddol o ganlyniad i brinder staff a gorfod addasu gwasanaethau i sicrhau y gellir eu darparu mewn modd sy'n amddiffyn staff, goroeswyr a'r gymuned ehangach rhag heintiau pellach.

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi ymgynghori gyda'n haelodau, a nodwyd y pwyntiau canlynol fel meysydd allweddol i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru eu hystyried er mwyn sicrhau ymateb grymus i VAWDASV yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

**Cynllunio at Argyfwng**

- Mae'n hanfodol cynnal **cyfarfodydd cynllunio rheolaidd, cydgysylltiedig â'r sector VAWDASV a'r llywodraeth** er mwyn sicrhau bod yr ymatebion cenedlaethol yn unol â'r materion cyfredol a deinamig sy'n wynebu goroeswyr a gwasanaethau arbenigol. Dylai'r cyfarfodydd hyn ystyried lefelau'r galw cyfredol, lefelau darparu gwasanaethau a llywio canllawiau i'r cyhoedd a chymorth i wasanaethau. Yn Lloegr, caiff cyfarfod rhith wythnosol ei gydlynu gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig gyda sefydliadau cynrychiadol a darparwyr llinellau cymorth. Byddem yn argymell y dylid cyflawni'r hyn

[1] http://www.sddirect.org.uk/media/1881/vawg-helpdesk-284-covid-19-and-vawg.pdf

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |
Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

sy'n cyfateb iddo yng Nghymru, o bosibl o dan arweiniad y Cynghorwyr Cenedlaethol neu'r tîm VAWDASV.

- Mae'n hanfodol **cynnwys cynrychiolaeth VAWDASV yng nghyfarfodydd cynllunio brys Llywodraeth Cymru**, drwy gyngohrwyr tîm VAWDASV neu gynghorwyr cenedlaethol o bosibl. Mae'n rhaid i hwn gysyllltu â'r cydgysylltiad uchod er mwyn sicrhau llif gwybodaeth dwy ffordd.
- Ar lefel leol, **mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ymgysylltu â'u gwasanaethau cymorth arbenigol lleol** o fewn eu prosesau cynllunio a gweithredu ar gyfer COVID 19. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau eu bod yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol a byrddau lleol pan fo hyn yn digwydd.
- Mae'n rhaid sicrhau bod **data VAWDASV**, gan gynnwys data Llwybrau at Gymorth (Routes to Support), Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a data aelodau Cymorth i Ferched Cymru, yn **rhan o'r gwaith monitro i lywio camau gweithredu.** Bydd hyn yn darparu darlun parhaus o weithdrefnau effaith COVID 19 gwasanaethau arbenigol. Bydd yn galluogi'r broses o fonitro'r ddarpariaeth sydd ar gael ac yn caniatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae'n rhaid cydnabod y gall y niferoedd sy'n cael mynediad at wasanaethau ostwng ar adegau, ond nid yw hyn yn golygu nad yw goroeswyr yn profi camdriniaeth neu drais ond y gallai fod yn anos iddynt gael mynediad at wasanaethau. Ni ddylai casglu data osod mwy o bwysau ar ddarpariaeth rheng-flaen ac mae'n rhaid darparu adnoddau priodol ar ei gyfer.
- **Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod anghenion goroeswyr yn rhan o'u trafodaethau a chraffu ar y Bil Coronafeirws Brys**. Mae goblygiadau posibl i achosion llys, capasiti iechyd meddwl a chymorth gwasanaethau cymdeithasol. Er enghraifft, noda'r bil bod: *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i alluogi awdurdodau lleol i flaenoriaethu'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig er mwyn sicrhau y bodlonir yr anghenion gofal mwyaf dybryd a brys, hyd yn oed os yw hyn yn golygu peidio â bodloni anghenion asesedig pawb yn llawn neu ohirio rhai asesiadau.* [2] Mae'n rhaid peidio â gweithredu hyn mewn modd a allai osod menywod a phlant sy'n profi camdriniaeth mewn mwy o berygl. Gwyddom eisoes na chydnabyddir rheolaeth drwy orfodaeth yn aml, gall hyn arwain at oedi cyn ymateb os na chaiff ei adnabod neu ei drin gyda'r difrifoldeb angenrheidiol.

[2] https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-bill-what-it-will-do/what-the-coronavirus-bill-will-do

**Cefnogi gwasanaethau**

- **Mae'n rhaid cydnabod bod gweithwyr cymorth VAWDASV yn Weithwyr Allweddol**. Dylai hyn eu galluogi i gael mynediad at ofal plant, offer profi neu amddiffyn ychwanegol i'w galluogi i barhau i weithio i gadw gwasanaethau VAWDASV ar agor. Bydd gofal plant yn arbennig o bwysig gan fod y mwyafrif o weithwyr cymorth VAWDASV yn fenywod a bydd cau ysgolion yn effeithio yn benodol arnynt. Ar adeg pan fydd gwasanaethau arbenigol eisoes yn cael trafferthion gyda llai o gapasiti, mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn sicrhau gweithlu cryf a ddiogelir i gadw gwasanaethau VAWDASV ar agor.
- Gweithio gyda'r sector VAWDASV i gefnogi **cydgysylltiad canolog o ran staff a gwirfoddolwyr**, gan ganiatáu rhannu staff a gwirfoddolwyr ar draws asiantaethau os bydd angen i wasanaethau ddechrau lleihau'r ddarpariaeth/staffio er mwyn ceisio cynnal lefelau darpariaeth.
- Sicrhau bod yr holl **gomisiynwyr a chyllidwyr yn lleihau galwadau ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol** ac yn caniatáu ar gyfer darpariaeth hyblyg wrth i wasanaethau symud i gyswllt wyneb yn wyneb cyfyngedig. Bydd angen parhau â hyn i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd, gan fod y tarfu ar wasanaeth yn debygol o gael effaith y tu hwnt i godi unrhyw fesurau COVID 19 penodol gan y bydd hyfforddi staff wedi newid a bydd ymddygiad y cyhoedd yn debygol o fod yn wahanol am beth amser.
- **Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol, Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Cymdeithasol i weithio gyda gwasanaeth arbenigol i ddefnyddio unrhyw eiddo** sydd ganddynt sy'n wag ac heb ei ddyrannu i gadw menywod yn ddiogel os oes pryderon diogelwch neu risg difrifol. Gall lochesi gyrraedd sefyllfa lle nad oes unrhyw le ar gael neu lle na allant dderbyn menywod newydd am fod y firws yn bresennol yn yr eiddo. Mae angen galluogi cyrff cyhoeddus, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gwasanaethau arbenigol i gydweithio er mwyn sicrhau na wrthodir unrhyw un.
- **Canllawiau clir ar gyfer gwasanaethau arbenigol ac awdurdodau lleol ar weithredu'r broses o agor gwasanaethau i oroeswyr sydd heb fynediad at arian cyhoeddus.** Croesawir dileu'r cyfyngiadau dim mynediad at arian cyhoeddus, fodd bynnag mae'n hanfodol y caiff hyn ei gyfleu'n glir er mwyn iddo gael ei weithredu. Dylid gwneud gwaith i sicrhau bod hyn yn dod yn ddilead hirdymor i'r cyfyngiad, fel arall mae perygl y bydd cyllid ar gyfer goroeswyr yn cael ei ddileu rywbryd, gan adael i wasanaethau arbenigol orfod cyflenwi ar adeg pan fyddant yn parahu i gael beichiau ariannu a goroeswyr sy'n wynebu amddifadedd neu ddychwelyd at sefyllfa gamdriniol os caiff gwasanaeth ei ddileu.

**Plant**

- **Cynyddu cyllid ar gyfer gweithwyr plant** gan ei bod yn debygol y bydd mwy o blant mewn llochesi a lleoliadau eraill am gyfnodau hwy o ganlyniad i gau ysgolion. Mae effaith hunanynysu a chadw pellter cymdeithasol yn debygol o fod yn arbennig o drawmatig a pheri gorbryder i blant y mae camdriniaeth a thrais yn effeithio arnynt, gyda llawer ohonynt eisoes wedi profi cyfyngiad ar eu rhyddid gan ddrwgweithredwyr camdriniaeth.
- **Llysoedd Teulu a threfniadau cyswllt plant.** Effeithir ar oroeswyr gan newidiadau i weithdrefnau'r llysoedd sifil a theulu. Cyhoeddwyd canllawiau gan yr HMCTS.[3] Rydym yn derbyn adroddiadau gan oroeswyr am ddrwgweithredwyr sy'n atal plant rhag dychwelyd ar ôl cyswllt gan ddweud eu bod yn hunanynysu'r plant. Mae'n rhaid i CAFCASS Cymru fod yn ymwybodol o'r pryderon hyn ac ymateb iddynt pan fo'n berthnasol i'w gwaith.

**Cyllid**

- **Cyllid ychwanegol** y bydd ei angen ar unwaith ac yn barhaus i dalu am:
  - Colli refeniw budd-dal tai ar gyfer llochesi.
  - Yr angen am dechnoleg newydd a galluoedd digidol, gan gydnabod cost gynyddol cyfarpar ac offer digidol ar hyn o bryd.
  - Hyfforddi staff ar dechnoleg newydd neu ddulliau cymorth gwahanol, megis cwnsela ar-lein neu ar y ffôn.
  - Y defnydd o unedau gwasgaredig/gwely a brecwast os bydd llochesi yn llawn o ganlyniad i arosiadau hwy, bydd angen hunanynysu/ffrwyno heintiau.
  - Costau staffio uwch megis i gyflenwi mwy o staff ar alwad gan y bydd yn rhaid i staff ddyblu neu dreblu eu hymrwymiadau ar alwad i gyflenwi staff sy'n absennol oherwydd salwch neu sy'n hunanynysu. Yn yr un modd, rhaid i wasanaethau dalu costau staff sy'n gweithio gartref, megis costau gwresogi, biliau ffôn ac offer ychwanegol.
- Mae'n rhaid i'r cyllid hwn fod **ar gael yn gyflym i wasanaethau arbenigol** a rhiad iddo fynd atynt yn uniongyrchol er mwyn cyflwyno'r ddarpariaeth angenrheidiol. Mae'n rhaid iddo gynnig yr hyblygrwydd iddynt adnabod yr hyn sydd ei angen yn benodol yn ôl anghenion y gwasanaeth a pharhau i dalu costau effaith y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol.

[3] https://www.judiciary.uk/announcements/covid-19-national-guidance-for-the-family-court-message-from-president-of-the-family-divison/

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |
Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Mae **addasu £15 miliwn terfynol y Dreth Tampon at ddibenion gwahanol** wedi bod yn awgrym i'w ddefnyddio i liniaru effaith COVID 19. Fodd bynnag, o safbwynt Cymru pryderwn fod y canllawiau ar gyfer y gronfa yn nodi y dylai ceisiadau fod yn isafswm o £1m. Mae defnyddio Fformiwla Barnett i ddyrannu dim ond £905,000 i Gymru yn golygu mai dim ond fel rhan o brosiectau'r DU gyfan y gall sefydliadau yng Nghymru dderbyn cyllid, yn bennaf drwy brosiectau sy'n gwneud grantiau blaen. Mae hyn yn amlwg yn gosod gwasanaethau VAWDASV Cymru o dan anfantais. Byddem yn awyddus i'r cyfyngiad hwn gael ei ddileu er mwyn sicrhau bod unrhyw gronfeydd yn gyfartal i Gymru ac yn medru dod yn uniongyrchol i wasanaethau yng Nghymru. Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r gynrychiolaeth hon i Lywodraeth y DU, yn enwedig ar yr adeg hon pan fo angen cyllid ar fyrder.
- **Mae angen i newidiadau gael eu gwneud er mwyn caniatáu cyllido cyfredol** ar gyfer prosiecatu cyfalaf yn ogystal â grantiau tymor byr diweddar a gynigiwyd sydd angen eu gwario cyn diwedd mis Mawrth er mwyn caniatáu iddo **gael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd** oherwydd bod y sefyllfa bresennol wedi amharu ar y broses gyflawni.
- Mae llawer o wasanaethau wedi gorfod gwneud **penderfyniadau ar unwaith i brynu eitemau hanfodol** megis gwelyau a nwyddau gwynion er mwyn i unedau gwasgaredig newydd ddarparu lleoedd ychwanegol ar gyfer hunanynysu. Mae adborth gan rai gwasanaethau wedi awgrymu eu bod yn gwneud cais am yr eitemau hyn drwy arian tanwariant y Grant Cyfalaf. Wrth ddyfarnu'r grant hwn byddai o gymorth i wasanaethau pe bai yna ryddid, pe câi'r grant ei ddyfarnu, i gynnwys eitemau a brynwyd ymlaen llaw a oedd wedi'u cynnwys yn eu cais gwreiddiol y bu angen iddynt eu prynu ar unwaith oherwydd eu hymateb i COVID 19.

**Canllawiau**

- Mae **canllawiau** Llywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru **ar gadw pellter cymdeithasol a hunanynysu yn gofyn am gyngor penodol ar frys ynghylch diogelu a chymorth** ar gyfer y rheini sy'n profi niwed gartref neu a fydd yn wynebu mwy o bryderon iechyd meddwl oherwydd VAWDASV. Mae'n rhaid iddo gynnwys y camau y gall goroeswyr sy'n oedolion ac yn blant, eu teuluoedd a'u cyfeillion, a gweithwyr proffesiynol eu cymryd i amddiffyn eu diogelwch, hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arno. Dylid datblygu hwn mewn parnteriaeth â gwasanaethau arbenigol ac asiantaethau perthnasol yn y sector cyhoeddus.

**Darpariaeth Gyfartal**

  - **Darpariaeth gyfartal i fenywod anabl sydd â gwendidau ychwanegol**, y gall fod angen iddynt hunanynysu am gyfnod hwy ac y gall fod angen iddynt gael mynediad at unedau gwasgaredig neu gymorth o bell am gyfnod hwy o ganlyniad i'r risg barhaus o haint.
- **Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i fenywod yn y diwydiant rhyw**, gan y byddant yn profi colli incwm ac felly byddant yn fwy agored i niwed, trais a chamfanteisio. Bydd hyn yn eu gosod mewn perygl sylweddol o gael eu heintio, gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt i hunanynysu, cadw pellter cymdeithasol neu gael mynediad at ofal iechyd. Gan fod llawer o fenywod yn y diwydiant rhyw hefyd yn camddefnyddio sylweddau, mae'n rhaid i ystyriaeth o'u hangenion lywio'r ymateb gyda gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

**Drwgweithredwyr**

  - **Mae angen sicrwydd gan yr Heddlu** er mwyn rhoi hyder i'r cyhoedd y byddant yn **parhau i ymateb yn gadarn i bob math o VAWDASV.** Dylai hyn fynd i'r afael â sut y byddant yn gwneud galwadau ac yn cymryd i'r ddalfa, gan sicrhau nad yw'r risg o haint yn cael blaenoriaeth dros ddiogelwch menywod a phlant. Mae'n rhaid cyflwyno neges gref na fyddwn yn caniatáu disgwyliadau wrth ymateb i ddrwgweithredwyr VAWDASV.
  - Yn ystod cyfnod o gynnydd posibl mewn cam-drin, bydd yn bwysig hyrwyddo'r ymateb sydd ar gael i'r rheini sy'n defnyddio camdriniaeth a allai fod yn dymuno cael mynediad at gymorth. I'r perwyl hwn, **dylai hyrwyddo Llinell Gymorth Respect y DU fod yn rhan o ganllawiau a dulliau cyfatherbu'r Llywodraeth.**

Mae'r sefyllfa yn newid yn gyflym, mae Cymorth i Ferched Cymru yn ymdrechu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am dueddiadau a phryderon sy'n wynebu goroeswyr a gwasanaethau arbenigol. Rydym yn cyfathrebu yn rheolaidd gyda'n haelodau i'w cynorthwyo yn ystod y cyfnod hwn yn ogystal â galluogi'r gwasnaethau VAWDASV yng Nghymru i rannu unrhyw gamau lliniaru a allai fod o gymorth i eraill. Gweithiwn ar y cyd gyda'n haelodau, sefydliadau VAWDASV ledled y DU ac Ewrop a chyrff cyhoeddus i sicrhau ein bod yn cadw'r rhwydwaith o ddarpariaeth VAWDASV yng Nghymru ar agor i oroeswyr yn ystod y cyfnod hwn.

Croesawn yr ymatebion cadarnhaol, sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau, gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a byddwn yn parhau i weithio i gefnogi a llywio'r dull gweithredu hwn gymaint â phosibl.

**Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE**
**Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |**
**Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk**
**Registered Charity Number: 1140962**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r Pennaeth Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu, Gwendolyn Sterk yn Cymorth i Ferched Cymru ar 02920541551 neu ebostiwch gwendolynsterk@welshwomensaid.org.uk.